**Tystiolaeth gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**

**Diben**

1. Diben y papur hwn yw darparu tystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau i ddatblygu Trafnidiaeth Cymru yn y dyfodol.

**Cefndir**

2. Sefydlwyd Trafnidiaeth Cymru o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 ac mae'n gwbl atebol i Weinidogion Cymru, fel is-gwmni o dan berchnogaeth lwyr sy'n gyfyngedig drwy warant.

3. Mae Trafnidiaeth Cymru yn gweithredu yn unol â phwerau a swyddogaethau a ddarperir yn Adran 1 o Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 ynghyd ag Adran 60 (1) (a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r pwerau hyn yn perthyn i Weinidogion Cymru fel y gallant wneud unrhyw beth y tybiant sy'n briodol er mwyn hyrwyddo neu wella llesiant economaidd Cymru. At hynny, mae Adran 71 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi y gall Gweinidogion Cymru ffurfio cwmni (megis cwmni hyd braich) er mwyn darparu gwasanaethau iddynt, pan benderfynir y bydd hynny'n hwyluso'r broses o arfer unrhyw swyddogaethau, neu'n gydnaws â hynny neu'n digwydd o achos hynny.

4. Mae cwmpas gweithrediad Trafnidiaeth Cymru yn gyfyngedig i'r gweithgareddau y caiff Gweinidogion Cymru eu cyflawni'n gyfreithlon. Felly nid yw'n bosibl i Trafnidiaeth Cymru ymgymryd â swyddogaethau sydd y tu allan i bwerau Gweinidogion Cymru ac ni all Gweinidogion Cymru ddirprwyo eu swyddogaethau i Trafnidiaeth Cymru.

5. Felly, sefydlwyd Trafnidiaeth Cymru i ymgymryd â swyddogaethau trafnidiaeth penodol ar ran Gweinidogion Cymru, i:

    - weithredu fel corff cynghori ac ymgynghorol proffesiynol mewn cysylltiad â phrosiectau trafnidiaeth yng Nghymru drwy ddarparu cymorth ac arbenigedd i Lywodraeth Cymru;
    - sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau mewn cysylltiad â chamau statudol a gweinyddol o ran paratoi, safonau peirianneg, adeiladu, priodoldeb a rheolaeth ariannol a chontractiol drwy ddarparu cymorth ac arbenigedd i Lywodraeth Cymru;
    - darparu gwasanaethau rheoli prosiectau mewn cysylltiad â phrosiectau trafnidiaeth yng Nghymru drwy ddarparu cymorth ac arbenigedd i Lywodraeth Cymru.

6. Cylch gwaith y Cwmni, yn wreiddiol, oedd llunio a chynnal y broses gaffael ar gyfer Partner Gweithredu a Datblygu i wasanaeth rheilffordd Cymru a'r Gororau a Metro De Cymru, a datblygu opsiynau ar gyfer Metro Gogledd Cymru.

7. Wrth ddyfarnu'r contract, cafodd cylch gwaith Trafnidiaeth Cymru ei ymestyn i gynnwys rheoli contract y gwasanaeth rheilffordd, rheoli'r gwaith o ddarparu Metro De Cymru a datblygu metro gogledd-ddwyrain Cymru. Ar hyn o bryd, mae Adran 25 o Ddeddf Rheilffyrdd 1993 yn gwahardd "gweithredwyr y sector cyhoeddus"

rhag cynnal masnachfreintiau, sy'n cyfyngu Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru rhag darparu gwasanaethau rheilffyrdd yn uniongyrchol.

8. Mae gan Trafnidiaeth Cymru ran bwysig i'w chwarae o ran hyrwyddo integreiddio ar draws y rhwydwaith trafnidiaeth cyfan ac annog newid moddol. Uchelgais Gweinidogion Cymru ar gyfer Trafnidiaeth Cymru yw y bydd yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd sydd ar gael iddo fel ein corff integreiddio trafnidiaeth, a bydd hyn yn golygu y bydd angen iddo ymgymryd ag ystod eang o swyddogaethau trafnidiaeth.

**Trefniadau llywodraethu, cyllido a strwythur Trafnidiaeth Cymru ar hyn o bryd**

9. Fel cwmni sydd wedi cofrestru o dan Ddeddf Cwmnïau 2006, mae gan Trafnidiaeth Cymru hunaniaeth eglur, cyfreithiol mewn fframwaith cadarn a sefydledig sy'n caniatáu iddo wneud penderfyniadau gweithredol annibynnol.

10. Fel is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr Gweinidogion Cymru, Llywodraeth Cymru sy'n rheoli nodau a pherfformiad cyffredinol Trafnidiaeth Cymru ar lefel strategol, gan sicrhau bod y Cwmni'n ymddwyn yn effeithlon ac yn parhau i weithredu er budd y cyhoedd.

11. Mae atebolrwydd i Lywodraeth Cymru yn cael ei sicrhau drwy gyfres o ddulliau strategol. Caiff y rhain eu rhestru yn y tabl isod. Mae rhai elfennau, megis yr Erthyglau Cwmni, yn ofynnol o dan y gyfraith; ac mae eraill yn helpu i lywio'r drafodaeth rhwng Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru:

| | |
|---|---|
| **Erthyglau Cwmni** | Cyfansoddiad y cwmni, fel sy'n ofynnol gan gyfraith cwmni, yn nodi cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr, hawliau Gweinidogion Cymru (fel unig Aelod Warantwr) a materion gweinyddol eraill. |
| **Cytundeb Rheoli** | Cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru yn nodi'r fframwaith eang y mae Trafnidiaeth Cymru yn gweithio o'i fewn, ac yn nodi beth yw'r telerau a'r amodau y mae Gweinidogion Cymru yn darparu cyllid ar gyfer y Cwmni. |
| **Canllawiau a Safonau Statudol** | Mae hyn yn gysylltiedig â sut y dylai Trafnidiaeth Cymru ymdrin â materion penodol neu ofynion cyfreithiol, fel safonau amgylcheddol a chynllunio. |
| **Llythyr Cylch Gwaith** | Mae hwn yn nodi cyllid cyfalaf a refeniw Llywodraeth Cymru a'r perfformiad a ddisgwylir gan Trafnidiaeth Cymru, a'r cyflawniadau allweddol ar gyfer y cyfnod a gwmpseir gan y llythyr cylch gwaith. |

12. Mae'r Cytundeb Rheoli a'r Llythyrau Cylch Gwaith ar gael ar dudalennau Trafnidiaeth Cymru ar wefan Llywodraeth Cymru: https://beta.llyw.cymru/trafnidiaeth-cymru?_ga=2.264825743.1609623400.1551740602-487643748.1534359348

***Bwrdd Cwmni Trafnidiaeth Cymru***

13. Caiff Trafnidiaeth Cymru ei reoli gan fwrdd cyfarwyddwyr sy'n gyfan gwbl gyfrifol am bob agwedd ar reoli'r cwmni. Mae'r bwrdd ei hun wedi'i gyfansoddi yn unol ag arfer gorau yn y maes llywodraethu corfforaethol.

14. Mae Deddf Cwmnïau 2006 yn gosod dyletswydd ar bob cyfarwyddwr cwmni sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt weithredu er budd y cwmni a sicrhau bod y cwmni'n cadw cofnodion cyfrifyddu llawn a chywir.

15. Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i gyfarwyddwyr Trafnidiaeth Cymru ddilyn erthyglau'r cwmni. Mae hyn yn sicrhau bod y cyfarwyddwyr yn parhau i fod yn atebol i Weinidogion Cymru fel yr unig Aelod Warantwr.

16. Fel cwmni o dan y Ddeddf Cwmnïau, mae gan Drafnidiaeth Cymru fwrdd o gyfarwyddwyr annibynnol. Caiff dau o'r rhain (gan gynnwys y Cadeirydd) eu penodi gan Weinidogion Cymru, a'r gweddill eu penodi gan y cwmni (ond gyda chydsyniad Gweinidogol).

17. Cadeirydd Trafnidiaeth Cymru sy'n gyfrifol am arwain y bwrdd a sicrhau ei fod yn effeithiol ym mhob agwedd ar ei rôl. Y Cadeirydd yw'r cysylltiad rhwng Bwrdd Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru, ac mae'n gyfrifol am bennu agenda'r Bwrdd.

18. Rôl y Bwrdd yw:

- darparu arweiniad effeithiol; diffinio a datblygu cyfeiriad strategol a phennu amcanion heriol;
- hyrwyddo safonau uchel o ran cyllid cyhoeddus, cynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian;
- sicrhau bod gweithgareddau Trafnidiaeth Cymru yn cael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol; a
- monitro perfformiad er mwyn sicrhau bod Trafnidiaeth Cymru yn bodloni ei amcanion, nodau a thargedau perfformiad yn gyfan gwbl.

***Atebolrwydd a Chyfrifoldebau***

19. Caiff Trafnidiaeth Cymru ei arwain gan Brif Weithredwr gyda chefnogaeth uwch dîm. Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi eu cofrestru yn Nhŷ'r Cwmnïau fel Cyfarwyddwyr Gweithredol Bwrdd y Cwmni.

20. Mae Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, a Chyfarwyddwr Cyffredinol Adran yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol, fel

Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol, yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am stiwardiaeth briodol o'r arian cyhoeddus a ddefnyddir i gyllido Trafnidiaeth Cymru.

21. Mae'n rhaid i'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol fod yn fodlon bod yr arian y gwnaiff Trafnidiaeth Cymru gais amdano gan Lywodraeth Cymru i gyflawni'r gweithgaredd y mae wedi cytuno i'w wneud, yn rhesymol a bod gan y Cwmni'r trefniadau llywodraethu angenrheidiol a'r rheolau mewnol ar waith i reoli'r cyllid. Y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y trefniadau yn eu lle o fewn Llywodraeth Cymru i:

    - fonitro gweithgareddau Trafnidiaeth Cymru a'i sefyllfa ariannol drwy gyfarfodydd ac adroddiadau ariannol rheolaidd;
    - mynd i'r afael ag unrhyw faterion o bwys o fewn Trafnidiaeth Cymru, gan ymgymryd â'r ymyriadau y bernir bod eu hangen;
    - cynnal asesiadau achlysurol o'r risgiau i'r adran a nodau ac amcanion Trafnidiaeth Cymru;
    - hysbysu Trafnidiaeth Cymru o bolisi perthnasol y llywodraeth yn brydlon; a
    - thynnu sylw bwrdd llawn Trafnidiaeth Cymru at unrhyw bryderon am weithgareddau Trafnidiaeth Cymru lle mae angen esboniadau a sicrwydd y bydd camau lliniaru yn cael eu cymryd.

22. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol wedi dynodi Prif Weithredwr Trafnidiaeth Cymru yn Swyddog Cyfrifyddu'r Cwmni. Pan ddaw arian cyhoeddus i law, y Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu Trafnidiaeth Cymru, sy'n bersonol gyfrifol i Weinidogion Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru am stiwardiaeth briodol o'r arian cyhoeddus y mae'n gyfrifol amdano; am weithrediadau Trafnidiaeth Cymru o ddydd i ddydd, a'i reoli; ac am sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

23. Fel Cyfarwyddwr Gweithredol Trafnidiaeth Cymru, mae'r Prif Weithredwr yn rhwym wrth gyfrifoldebau cyfreithiol sydd wedi eu nodi ar gyfer cyfarwyddwyr cwmnïau o dan Ddeddf Cwmnïau 2006, gan gynnwys y cyfrifoldeb cyffredinol i weithredu mewn ffordd y byddai'n ei ystyried, yn ddidwyll, yn fwyaf tebygol o hyrwyddo llwyddiant y cwmni er budd Gweinidogion Cymru, sy'n cynnwys cyfrifoldeb dros:

    - rheoleidd-dra a phriodoldeb;
    - sicrhau system gadarn o reolaeth fewnol;
    - diogelu adnoddau ac asedau'r Cwmni;
    - diogelu'r Cwmni rhag risg o dwyll;
    - sicrhau bod holl incwm a derbyniadau o bob math y mae gennych gyfrifoldeb drostynt yn cael eu casglu a'u cyfrif.

24. Yn ychwanegol at y cyfrifoldebau hyn, mae'n rhaid i'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu:

    - sicrhau bod Trafnidiaeth Cymru yn cydymffurfio â gofynion y Cytundeb Rheoli;
    - sicrhau bod yr holl ystyriaethau ariannol, wrth ystyried cynigion polisi mewn

cysylltiad â gwariant neu incwm y maent yn gyfrifol amdanynt, gan gynnwys dichonoldeb a chynaliadwyedd, yn cael sylw, bod y cynnig gwerth am arian yn cael ei asesu yn unol â'r egwyddorion a nodir yng nghanllaw'r Trysorlys,"The Green Book: *Appraisal and Evaluation in Central Government*"; ac y rhoddir ystyriaeth lawn i unrhyw faterion yn ymwneud â phriodoldeb a chywirdeb;

- sicrhau bod eu gwaith o reoli cyfleoedd a risg yn cynnal y cydbwysedd cywir sy'n briodol ar gyfer busnes Trafnidiaeth Cymru a'r risg y mae'r cwmni a Bwrdd Cwmni Trafnidiaeth Cymru yn fodlon ei hysgwyddo.

25. At ei gilydd, mae'r fframwaith llywodraethu yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cadw digon o bŵer i ddiogelu budd cyhoeddus a dwyn Trafnidiaeth Cymru i gyfrif, heb fod angen ymyrryd yn uniongyrchol yng ngweithgareddau dyddiol y Cwmni, gan ganiatáu i Fwrdd y Cwmni ddarparu arweiniad a gwneud penderfyniadau.

**Yr uchelgais ar gyfer datblygu Trafnidiaeth Cymru**

26. Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw cael system drafnidiaeth integredig gynaliadwy o safon fyd eang yng Nghymru – un a fydd yn gallu arwain ein heconomi a'n cymunedau tuag at fwy o ffyniant.

27. Mae Trafnidiaeth Cymru yn gorff cyflawni arbenigol, ar wahân i Lywodraeth Cymru, sydd ag ymrwymiad arbenigol, amlwg i un nod: cefnogi'r gwaith o ddarparu system drafnidiaeth integredig drawsnewidiol yng Nghymru.

28. Uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer Trafnidiaeth Cymru, sydd wedi'i nodi yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, yw y bydd Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gyda'r timau rhanbarthol newydd, yr awdurdodau trafnidiaeth rhanbarthol newydd a phartneriaid i greu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig, a fydd yn cwmpasu rhwydweithiau rheilffyrdd a bysiau, ac y bydd y rhwydweithiau hyn yn gynyddol yn dod yn eiddo i Trafnidiaeth Cymru, neu'n cael ei weithredu ganddo.

29. Ymhellach at hynny, mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru, am y tro cyntaf, yn sefydlu rhaglen cyllid cyfalaf bum mlynedd ar gyfer trafnidiaeth, drwy Trafnidiaeth Cymru, ar gyfer cynnal a chadw a phrosiectau newydd.

**Model cyflawni ar gyfer system drafnidiaeth integredig yng Nghymru**

30. Mae nifer o wahanol, fodelau cyflawni ledled y DU, gan gynnwys Transport for London, Transport Scotland, MerseyTravel a Transport for Greater Manchester. Mae'r sefydliadau hyn yn amrywio o ran sut y maent yn gweithredu - eu cyfansoddiad, strwythur, fframwaith deddfwriaethol a chyllid - ac maent yn ganlyniad uniongyrchol i'r fframwaith deddfwriaethol y maent yn gweithredu ynddo, ond mae gan bob un ohonynt gylch gwaith cyson a chlir; cydgysylltu'r system drafnidiaeth ar draws eu rhanbarthau perthnasol.

31. Nid oes angen unrhyw ddeddfwriaeth i weithredu'r fframwaith llywodraethu presennol, o'i gymharu â modelau amgen sy'n golygu bod angen sefydlu

Trafnidiaeth Cymru fel awdurdod statudol (lle y byddai angen i strwythur bwrdd a threfniadau llywodraethu lefel uchel y corff gael eu diffinio yn y gyfraith).

32. O gofio dyhead Llywodraeth Cymru i Trafnidiaeth Cymru fod yn gyfrifol am lawer o swyddogaethau trafnidiaeth ehangach, mae strwythur presennol y cwmni yn cynnig hyblygrwydd sylweddol i addasu'r elfennau hyn yn y dyfodol. Mae'r model hefyd yn fwy cyfarwydd i sefydliadau masnachol y bydd angen i Trafnidiaeth Cymru gydweithio â hwy.

**Y broses o ddatblygu Trafnidiaeth Cymru**

33. Bydd datblygu Trafnidiaeth Cymru i gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn golygu trosglwyddo cyfrifoldeb am elfennau rheoli o ddydd i ddydd rhwydwaith trafnidiaeth Cymru i Trafnidiaeth Cymru, ac mae rhai o'r rhain yn cael eu darparu'n uniongyrchol ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn archwilio'r opsiynau cyflawni swyddogaethau trafnidiaeth a gaiff eu darparu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru drwy Achos Busnes. Bydd yr Achos Busnes yn nodi modelau cyflawni posibl ac mae'r gwaith hwn yn parhau.

34. Nid proses sy'n ymwneud â phreifateiddio yw hon, ac nid yw ychwaith yn broses sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau ar gontract allanol. Fel is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr Gweinidogion Cymru, mae Trafnidiaeth Cymru yn rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, felly caiff unrhyw risg ac unrhyw gyfle ei gadw yn y sector cyhoeddus, ond o fewn sefydliad cyflawni penodol arbenigol.

**Y berthynas rhwng Trafnidiaeth Cymru a Chyd-awdurdodau Trafnidiaeth**

35. Bydd y Papur Gwyn ar gynigion i ddeddfu ar gyfer diwygio'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau bysiau lleol a thrwyddedu tacsis a cherbydau llogi preifat, a gafodd ei lansio ym mis Rhagfyr 2018, yn cynnig llwyfan i sicrhau cysondeb a chydgysylltu o ran cynllunio a darparu trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r Papur Gwyn yn nodi'r bwriad i ddefnyddio pwerau presennol o dan Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 i sefydlu Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth.

36. Awgrymir dau fodel yn y papur ymgynghori, sef Cyd-awdurdod Trafnidiaeth cenedlaethol gyda byrddau cyflawni rhanbarthol neu gyrff cenedlaethol a rhanbarthol yn ymdrin â gweithgareddau strategol a gweithredol, yn y drefn honno.

37. Y bwriad yw datblygu'r Papur Gwyn pellach sy'n nodi mwy o eglurder o ran y cynnig Cyd-awdurdodau Trafnidiaeth arfaethedig.

38. Er y disgwylir y bydd Bil Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cymru) yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad ym mis Chwefror 2020, mae'r gwaith gan Trafnidiaeth Cymru i wella gwasanaethau bysiau ledled Cymru yn gyfle i lunio dull partneriaeth o ddarparu gwasanaethau gydag awdurdodau lleol ochr yn ochr â datblygu fframwaith deddfwriaethol newydd. Gallai cytundeb o'r fath fod yn sail i'r model cyflawni gorau

a fyddai’n cael ei ddisgrifio yn y Papur Gwyn a gaiff ei gyhoeddi yn ystod Hydref 2019.